Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Canllawiau Cerdded
Walks Guide

# 4 Geirionydd i Grafnant
# Geirionydd to Crafnant



## UCHAFBWYNTIAU

**Mwynhewch golygfeydd wrth ymyl y dŵr o Lyn Geirionydd a golygfa ar draws Dyffryn Crafnant i'r mynyddoedd y tu hwnt.**

Dilynwch y llwybr heibio pen deheuol Llyn Geirionydd nes bod y llwybr yn culhau ac yn eich taflu i gysgod a brith olau coed llarwydd tal. Mae hwn yn lle da i weld croesbigau; disgynnwch yn serth drwy blanhigfa byrwydd ddistaw gysgodol ac yna heibio coed ynn a drain gwynion yn drwm o fwsogl a chen, sy'n arwydd o'r awyr iach yma. Parhewch ar ffordd darmac a ffordd goedwig, gan ddringo i olygfan, yna disgynnwch yn ôl i Lyn Geirionydd.

## HIGHLIGHTS


**Enjoy lakeside views of Llyn Geirionydd and a view across the Crafnant Valley to the mountains beyond.**

Follow the trail past the southern end of Llyn Geirionydd until the path narrows and casts you into the shelter and dappled light of tall larch trees. A good place to spot crossbills, descend steeply through a shady silent spruce plantation and then pass ash and hawthorn hanging heavy with moss and lichen, a sign of the clean air here. Continue on tarmac and forest road, climbing to a viewpoint, then descend back to Llyn Geirionydd.




Atgynhyrchwyd â chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa ei Mawrhydi. © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2018. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100019741

Reproduced by Permission of Ordnance Survey on behalf of HMSO. © Crown copyright and database right 2018. Ordnance Survey Licence number 100019741



## Allwedd / Map Key

- Geirionydd i Grafnant / Geirionydd to Crafnant
- Parcio / Parking
- Toiledau / Toilets
- Maes picnic / Picnic area
- Mainc / Bench



### Dilynwch y symbolau cyfeirbwynt glas

**Dechrau:** Maes Parcio Geirionydd
**Gradd:** Cymedrol
**Amser:** 2-3 awr
**Pellter:** 4½ millltir/7.2km
**Dringo:** 300m

**Disgrifiad:** Mae'r llwybr ar gyfuniad o ffyrdd coedwig, ffordd darmac, a llwybr troed cul serth, yn llai nag 80cm o led mewn rhai mannau, sy'n arw ac anwastad dan droed, a gallwch ddisgwyl llaid mwd, creigiau a gwreiddiau coed. Mae dwy ryd fechan i'w croesi ar y darn hwn a giât mochyn yn union cyn ichi gwrdd â ffordd y cyngor. Mae hefyd dau rwystr coedwig y bydd angen ichi gerdded o'u hamgylch gyda bwlch o ryw 70cm ar yr ochr. Mae meinciau picnic a thoiledau yn y ddau faes parcio, ac un fainc yn yr olygfan uwchlaw Crafnant.

### Follow the Blue waymarker symbols

**Start:** Geirionydd Car Park
**Grade:** Moderate
**Time:** 2-3 hours
**Distance:** 4½ miles/7.2km
**Climb:** 300m

**Description:** The trail is on a combination of forest roads, tarmac road, and a steep narrow footpath, less than 80cm wide in some places, on an unmade and uneven surface, where you can expect mud, rocks and tree roots. There are two small fords to cross on this section and a kissing gate just before you meet the council road. There are also two forest barriers you will need to walk around with a gap of around 70cm at the side. There are picnic benches and toilets in both carparks, and a bench at the viewpoint above Crafnant.